Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A'R GYMRAEG

Cyflwyniad

Dydy'r Gymraeg **ddim** yn 'nodwedd warchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Yn 2011, trosglwyddwyd pwerau Bwrdd yr Iaith Gymraeg i rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn darparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth Cymraeg a Phanel Cynghori i'r Comisiynydd.

Y materion

Mae'r ganran o bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg yn amrywio o 15% yn 65 oed i 19% yn 85 oed a throsodd. Gwelodd pob awdurdod lleol, ac eithrio Caerdydd, ddirywiad yng nghanran y bobl hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg. Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin lle y gwelwyd gostyngiad yn y ganran o 59.3% i 48.8% yn 2011. Yng Nghaerdydd roedd y ganran yn parhau yn debyg, sef tua 5%.

Roedd 582,000 (20.8%) o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg yn 2001 o'i gymharu â 562,000 yn 2001 (19%). Awgrymwyd mai newidiadau demograffig oedd un rheswm dros y gostyngiad yma, gan gynnwys llai o blant, mwy o oedolion a cholli siaradwyr hŷn. Mae rhai

siaradwyr Cymraeg yn ymadael â Chymru a bydd siaradwyr di-Gymraeg yn symud i mewn.

Fe fydd pobl yn defnyddio gwahanol lefelau o Gymraeg ac yn amrywio yn eu defnydd o'r Gymraeg ar wahanol adegau yn eu bywyd ac at wahanol dasgau. Mae data'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos ei bod yn well gan bobl efallai dderbyn eu holl wasanaethau ar lafar trwy gyfrwng y Gymraeg ond eu bod nhw weithiau yn llai awyddus i gael deunydd ysgrifenedig, fel llythyrau a negeseuon e-bost, yn Gymraeg.

Mae iaith yn holl bwysig wrth asesu ac ymyrryd ac nid aelodau'r teulu yw'r gorau bob amser o ran rhoi cyfieithiad. Gall y dewis iaith effeithio ar sefydlu cysylltiadau clinigol a therapiwtig a dylid cynllunio gwasanaethau yn effeithiol.

Dylid annog a chefnogi staff sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg i wella'u sgiliau Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau priodol ar sail dewis iaith ac nid dibynnu ar ddefnyddwyr gwasanaethau i nodi'r angen a chreu'r galw am wasanaethau Cymraeg.

Mae parch at urddas yn golygu y dylai anghenion iaith gael eu cydnabod yn briodol gan ddarparwyr gwasanaethau.

Casgliadau

Mae angen i bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg – ac ieithoedd eraill – brofi newidiadau systemig mewn agweddau, gweithdrefnau ac arferion yn y gweithle. Dylai gwybodaeth am iaith fynd gyda phobl wrth iddyn nhw fynd trwy'r system a dylid casglu data ar y pwynt cyswllt cyntaf i weld pa ddarpariaeth iaith sy'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae angen monitro gwasanaethau Cymraeg yn barhaus a dylai asiantaethau ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u rhaglenni hyfforddi craidd.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon ac adnoddau pellach ewch i www.olderpeoplewales.com